

Rhentu a Chredyd Cynhwysol

Canllaw i landlordiaid ac asiantau gosod

Mae yna bobl sydd wedi profi anawsterau wrth geisio rhentu eiddo tra ar fudd-daliadau.

Gall yr arfer hen ffasiwn hwn - a elwir yn 'No DSS' er nad yw'r Adran Nawdd Cymdeithasol wedi bodoli ers 2001 - adael unigolion a theuluoedd heb gartref, yn syml oherwydd eu bod yn derbyn cymorth tai.

Mae miloedd o asiantau gosod a landlordiaid yn gosod i hawlwr sydd ar fudd-daliadau heb unrhyw broblemau o gwbl. Yn yr ychydig achosion lle mae problemau, mae cefnogaeth ar gael i hawlwr a landlordiaid.

Mae'r daflen ffeithiau hon yn tynnu sylw at y gefnogaeth sydd yn cael ei gynnis i helpu hawlwr i dalu eu rhent mewn pryd ac yn llawn.

"Beth os na fydd y tenant yn talu ei rent?"

Mae hynny'n risg gyda phob tenant, ac mae yswiriant landlord ar gael waeth beth yw statws cyflogaeth eich tenant. A gyda Chredyd Cynhwysol mae cefnogaeth ychwanegol ar gael os bydd problemau'n codi.

Cyn belled â bod eich tenant yn rhoi caniatâd, gallwch chi siarad â'u rheolwr achos am bryderon rhent. Byddant yn gweithio gyda chi i gytuno ar yr ateb gorau.

Pe bai'ch tenant yn mynd i **ôl-ddyledion**, gallwch chi wneud cais i'r ôl-ddyledion hynny gael eu hadennill ar eich rhan, cyhyd â bod y tenant yn aros yn yr eiddo.

"Dw i ddim yn credu y bydd y tenant yn gallu rheoli eu harian."

Weithiau mae'n briodol talu rhent i chi yn uniongyrchol. Mae'r trefniant talu amgen hwn yn cael ei alw'n **Taliadau wedi'u rheoli i Landlordiaid**.

Gall pob landlord wneud cais am Daliad wedi'u rheoli i Landlordiaid o ddechrau hawliad Credyd Cynhwysol gan ddefnyddio'r gwasanaeth ar-lein Ymgeisio am Daliad Rhent Uniongyrchol.

"Dw i ddim eisiau gosod i rywun heb swydd."

Gall Credyd Cynhwysol gynnwys arian tuag at gostau tai, felly os bydd eich tenant yn darganfod eu hunain allan o waith gallent ei gael help o hyd i dalu eu rhent. A chofiwch bod Credyd Cynhwysol yn cael ei hawlio gan bobl mewn amrywiaeth o amgylchiadau gan gynnwys:

- Mewn gwaith
- Mewn addysg neu hyfforddiant
- Gofalu am blant ifanc
- Chwilio am waith
- Methu gweithio oherwydd anabled neu gyflwr iechyd

"Nid yw fy menthyciwr morgais yn caniatáu fi i osod i bobl ar fudd-daliadau."

Gwiriwch â'ch benthyciwr morgais. Bu llawer o newidiadau dros y blynyddoedd diwethaf. Nid oes gan mwyafrif y benthycwyr y cyfyngiadau hyn nawr, hyd yn oed os oedd ganddynt yn flaenorol.

"Clywais y gall gymryd amser hir i hawlwr i gael eu harian."

Telir mwyafrif helaeth o'r hawliadau newydd yn llawn ac ar amser.

Mae cefnogaeth ar gael i helpu i sicrhau bod hawlwr newydd wedi sefydlu eu cais yn gywir a gallant dderbyn cymorth ariannol mor gyflym â phosib.

Lle na all hawlydd aros 5 wythnos am eu taliad cyntaf, gallant wneud cais am **daliad ymlaen llaw** ad-daladwy.

Gallent fenthyca hyd at yr un swm a'u taliad misol Credyd Cynhwysol amcangyfrifedig cyntaf, a allai gynnwys swm tuag at gostau tai.